

Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2013

Amser y cyfarfod:
13:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Pleidleisiau a Thrafodion (168)

1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 2 a 6 eu grwpio. Atebwyd cwestiynau 4, 7 a 10 gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg.

2 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Dechreuodd yr eitem am 14.16

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.

3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Ymgyrch Jasmine

Dechreuodd yr eitem am 14.56

4 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

Dechreuodd yr eitem am 15.10

NNDM5358

Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)

Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi â phryder difrifol:

a) yr achosion o droseddwyd yn targedu plant agored i niwed er mwyn cam-fanteisio'n rhywiol arnynt;

b) bod plant sydd ar goll o ofal yn wynebu perygl penodol o gam-fanteisio rhywiol;

c) y dystiolaeth nad yw awdurdodau lleol yng Nghymru hyd yma yn gweithredu'n llawn ganllawiau Llywodraeth Cymru i ddiogelu plant sy'n mynd ar goll o ofal;

d) y gall yr arfer o leoli y tu allan i ardal olygu bod plant sy'n derbyn gofal yn wynebu mwy o berygl o gamdriniaeth a cham-fanteisio.

2. Yn cymeradwyo gwaith Prosiect Plant ar Goll Gwent ac yn nodi'r angen am ddata cymaradwy, cyson a dibynadwy ar yr achosion o blant sy'n derbyn gofal sy'n mynd ar goll o gartrefi plant a gofal maeth.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.54

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

NDM5380 William Graham (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod:

a) pwysigrwydd y BBC ym mywyd Cymru fel rhan o'r cyfryngau amrywiol;

b) yr angen i adnewyddu'r siarter sy'n adlewyrchu'r setliad datganoli presennol a'r setliad datganoli sy'n datblygu; a

c) y cyfraniad arloesol y mae'r BBC a darlledwyr cyhoeddus eraill yn ei wneud i ddiwylliant Cymru, y Gymraeg a'r economi.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
41	0	15	56

Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

6 Dadl Plaid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.49

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

NDM5379 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

- mai'r bwllch cyllido a amcangyfrifir rhwng y galw am gyllid gan fusnesau Cymru a'r cyflenwad presennol o'r sector bancio yw £500 miliwn;
- bod ardrethi annomestig yn cyfrif am gyfran sylweddol o gostau gweithredu ar gyfer microfusnesau a busnesau bach;
- bod cynnydd o 1% yng nghyfradd contractau caffael y sector cyhoeddus sy'n mynd i fusnesau Cymru yn creu 2,000 o swyddi newydd; a
- bod adnoddau naturiol Cymru yn cynnig cryn botensial ar gyfer budd economaidd.

2. Yn gresynu:

- mai'r GYC y pen yng Nghymru yw'r isaf o blith pob un o wledydd y DU sef cyfradd o 75.2% o ffigur y DU;
- bod dulliau macro-economaidd yn aros yn nwylo Aelodau Seneddol yn Senedd y DU ond yn cydnabod bod gan Lywodraeth Cymru rôl sylweddol i'w chwarae o ran tyfu economi Cymru;
- absenoldeb dangosyddion economaidd cyfredol i Gymru;
- methiant Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â diweithdra a thangyflogaeth; a
- methiant cyrff y sector cyhoeddus i weithredu Polisi Llywodraeth Cymru ar gaffael.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyhoeddi cynllun cynhwysfawr a hirdymor ar gyfer tyfu economi Cymru;

b) bwysleisio i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yr angen i ddarparu dangosyddion economaidd rheolaidd a mynych i Gymru;

c) mabwysiadu polisi Plaid Cymru i estyn rhyddhad ardrethi busnesau bach i bob busnes â gwerth ardrethol o £15,000 neu lai; a

d) archwilio manteision sefydlu banc datblygu busnes cyhoeddus, hyd braich, nid er elw i'w ddsbarthu.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
10	0	46	56

Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Cynnwys is-bwynt 1a) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

y twf yng Nghynnyrch Mewnwladol Crynswth y DU yn 2013;

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
46	0	10	56

Derbyniwyd gwelliant 1.

Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Cynnwys is-bwynt 1a) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

bod 29.8% o bobl Cymru yn cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus, sy'n uwch na 23.5%, sef cyfartaledd y DU.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	0	29	57

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

Gwelliant 3 – William Graham (Dwyrain De Cymru)

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

bod economi'r DU wedi cynyddu 0.8% yn ystod trydydd chwarter 2013, sy'n pwysleisio llwyddiant polisi economaidd Llywodraeth y DU.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
18	0	37	55

Gwrthodwyd gwelliant 3.

Gwelliant 4 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Cynnwys is-bwynt 2a) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

bod oddeutu 200,000 o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn cael trafferth cael gafael ar gyllid, yn ôl adroddiad Cam 1 o'r 'Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau yng Nghymru' gan yr Athro Dylan Jones-Evans.

Gellir gweld yr 'Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau yng Nghymru' yn:

<http://wales.gov.uk/topics/businessandconomy/publications/accesstofinance/?skip=1&lang=cy>

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
56	0	0	56

Derbyniwyd gwelliant 4.

Gwelliant 5 – William Graham (Dwyrain De Cymru)

Dileu is-bwynt 2b) a rhoi yn ei le:

methiant Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r ysgogiadau economaidd sylweddol sydd ar gael iddi er mwyn sbarduno twf yn economi Cymru;

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
13	0	43	56

Gwrthodwyd gwelliant 5.

Gwelliant 6 – William Graham (Dwyrain De Cymru)

Dileu is-bwynt 2e).

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
46	0	10	56

Derbyniwyd gwelliant 6.

Gwelliant 7 – William Graham (Dwyrain De Cymru)

Dileu is-bwynt 3c) a rhoi yn ei le:

mabwysiadu polisi'r Ceidwadwyr Cymreig i ymestyn rhyddhad ardrethi i fusnesau bach sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000, a darparu rhyddhad sy'n lleihau'n raddol i'r rheini sydd â gwerth ardrethol o hyd at £15,000;

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
13	0	43	56

Gwrthodwyd gwelliant 7.

Gwelliant 8 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Dileu is-bwynt 3c) a rhoi yn ei le:

ymestyn rhyddhad ardrethi busnes i bob busnes sydd â gwerth ardrethol o £15,000 neu lai, ac i fwy o gyfleusterau cymunedol fel swyddfeydd post, tafarndai a siopau annibynnol; a

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
18	0	38	56

Gwrthodwyd gwelliant 8.

Gwelliant 9 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Cynnwys is-bwynt 3d) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

rhoi cyfle i awdurdodau lleol gadw cyfran o'r ardrethi busnes y maent yn eu casglu er mwyn ysgogi twf economaidd lleol;

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	0	29	57

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

Gwelliant 10 – William Graham (Dwyrain De Cymru)

Dileu is-bwynt 3d) a rhoi yn ei le:

ymateb cyn gynted â phosibl i adroddiad yr Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau yng Nghymru – Cam 2, ac ystyried yr achos dros ddatblygu banciau busnes rhanbarthol fel yr amlinellwyd yn 'Buddsoddi Cymru'.

Gellir gweld adroddiad yr 'Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau yng Nghymru – Cam 2' yn:

<http://wales.gov.uk/docs/det/publications/131121accesstofund2en.pdf>

Gellir gweld 'Buddsoddi Cymru' yn:

<http://yourvoiceintheassembly.co.uk/wp-content/uploads/2013/01/Buddsoddi-Cymru-FINAL1.pdf>

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
41	0	15	56

Derbyniwyd gwelliant 10.

Gwelliant 11 – William Graham (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

ystyried y posibilrwydd o rannu lluosydd Cymru yn fusnesau bach a mawr, a fyddai'n sicrhau bod y system ardrethi busnes yn deg a bod Cymru ar yr un lefel â Lloegr a'r Alban.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 11:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
56	0	0	56

Derbyniwyd gwelliant 11.

Gwelliant 12 – William Graham (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

sicrhau bod polisiâu'r llywodraeth yn symleiddio ein rheoliadau a'n prosesau caffael ar gyfer y sector cyhoeddus.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 12:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
56	0	0	56

Derbyniwyd gwelliant 12.

Gwelliant 13 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

cefnogi mentrau cymdeithasol a busnesau llai a'u galluogi i dyfu drwy ddadfwndelu contractau'r sector cyhoeddus yn rhannau mwy hylaw, gan ei gwneud yn haws i'r busnesau hyn gyflwyno cynigion a chystadlu.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 13:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
56	0	0	56

Derbyniwyd gwelliant 13.

Gwelliant 14 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

gweithio i godi ymwybyddiaeth ymysg busnesau o gyfleoedd cyllid sy'n bodoli ar hyn o bryd, a gwranddo ar y gymuned fusnes ynghylch ffyrdd o wella cymorth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 14:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
56	0	0	56

Derbyniwyd gwelliant 14.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

NDM5379 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) y twf yng Nghynnyrch Mewnwladol Crynswth y DU yn 2013;

b) mai'r bwlch cyllido a amcangyfrifir rhwng y galw am gyllid gan fusnesau Cymru a'r cyflenwad presennol o'r sector bancio yw £500 miliwn;

c) bod ardrethi annomestig yn cyfrif am gyfran sylweddol o gostau gweithredu ar gyfer microfusnesau a busnesau bach;

d) bod cynnydd o 1% yng nghyfradd contractau caffael y sector cyhoeddus sy'n mynd i fusnesau Cymru yn creu 2,000 o swyddi newydd; ac

e) bod adnoddau naturiol Cymru yn cynnig cryn botensial ar gyfer budd economaidd.

2. Yn gresynu:

a) bod oddeutu 200,000 o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn cael trafferth cael gafael ar gyllid, yn ôl adroddiad Cam 1 o'r 'Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau yng Nghymru' gan yr Athro Dylan Jones-Evans.

b) mai'r GYC y pen yng Nghymru yw'r isaf o blith pob un o wledydd y DU sef cyfradd o 75.2% o ffigur y DU;

c) bod dulliau macro-economaidd yn aros yn nwylo Aelodau Seneddol yn Senedd y DU ond yn cydnabod bod gan Lywodraeth Cymru rôl sylweddol i'w chwarae o ran tyfu economi Cymru;

d) absenoldeb dangosyddion economaidd cyfredol i Gymru; ac

e) methiant Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â diweithdra a thangyflogaeth; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyhoeddi cynllun cynhwysfawr a hirdymor ar gyfer tyfu economi Cymru;

b) bwysleisio i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yr angen i ddarparu dangosyddion economaidd rheolaidd a mynych i Gymru;

c) mabwysiadu polisi Plaid Cymru i estyn rhyddhad ardrethi busnesau bach i bob busnes â gwerth ardrethol o £15,000 neu lai;

d) ymateb cyn gynted â phosibl i adroddiad yr Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau yng Nghymru – Cam 2, ac ystyried yr achos dros ddatblygu banciau busnes rhanbarthol fel yr amlinellwyd yn 'Buddsoddi Cymru';

e) ystyried y posibilrwydd o rannu lluosydd Cymru yn fusnesau bach a mawr, a fyddai'n sicrhau bod y system ardrethi busnes yn deg a bod Cymru ar yr un lefel â Lloegr a'r Alban;

f) sicrhau bod polisiâu'r Llywodraeth yn symleiddio ein rheoliadau a'n prosesau caffael ar gyfer y sector cyhoeddus;

g) cefnogi mentrau cymdeithasol a busnesau llai a'u galluogi i dyfu drwy ddadfwndelu contractau'r sector cyhoeddus yn rhannau mwy hylaw, gan ei gwneud yn haws i'r busnesau hyn gyflwyno cynigion a chystadlu; a

h) gweithio i godi ymwybyddiaeth ymysg busnesau o gyfleoedd cyllid sy'n bodoli ar hyn o bryd, a gwrando ar y gymuned fusnes ynghylch ffyrdd o wella cymorth.

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
10	0	46	56

Gwrthodwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.

Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.47

7 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.55

NDM5378 Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Yr "hun-lun" cenedlaethol: pam mae geiriadur cenedlaethol Cymraeg yn helpu i ddiffinio'r genedl

Daeth y cyfarfod i ben am 18:17

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 10 Rhagfyr 2013